

ADRODDIAD EFFAITH YR WYDDFA DDI-BLASTIG

(2022-2024)



ADRODDIAD EFFAITH YR WYDDFA DDI-BLASTIG (2022-2024)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Roedd Yr Wyddfa Ddi-Blastig yn brosiect peilot dwy flynedd (Hydref 2022 – Hydref 2024) dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fynd i'r afael â'r broblem sbwriel barhaus ar Yr Wyddfa, un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd Cymru. Ein nod uchelgeisiol oedd gwneud Yr Wyddfa y mynydd cyntaf yn y byd i gyflawni statws “di-blastig” trwy ddileu sbwriel plastig untro a llygredd. Yn ystod y prosiect, lansiwyd cyfres o **ymgyrchoedd a mentrau treial** yn targedu ymwelwyr, busnesau lleol, pobl ifanc, a'r gymuned ehangach. Buom hefyd yn gweithio ar newidiadau polisi a gwelliannau seilwaith gyda'r nod o leihau plastigau untro wrth y ffynhonnell.

Yn ystod y cynllun peilot, **fe wnaethom ymgysylltu â channoedd o fyfyrwyr a gwirfoddolwyr lleol**, archwilio dwsinau o fusnesau, a chyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu creadigol a ddenodd sylw cenedlaethol. Roedd ymdrechion nodedig yn cynnwys cynllun achredu Busnesau Di-blastig, cael gwared ar finiau o feysydd

parcio allweddol i annog ethos “pacio'r bin”, gosod gorsafoedd ail-lenwi dŵr o amgylch y mynydd, heriau arloesi dan arweiniad pobl ifanc, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth firaol fel y “Bananacam” ac ymgyrch atal sbwriel wedi'i hysbrydoli gan ffantasi. Fe wnaethom gydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor i gymhwyso gwyddor ymddygiad (gan gynnwys fframwaith COM-B) mewn ymyriadau, gan arwain at ostyngiad mesuradwy mewn sbwriel ar hyd llwybrau cerdded treial.

Erbyn diwedd y prosiect, **nid oedd Yr Wyddfa yn “ddi-blastig” eto**, gan fod tua 1.5 tonnall o sbwriel yn dal i gael ei gasglu ar y mynydd yn 2025. Fodd bynnag, gwnaed **cynnydd sylweddol**: tyfodd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater hwn ac fe sefydlwyd rhwydwaith o fusnesau brwdfrydig a hyrwyddwyr ifanc yn eirioli dros fod yn “Ddi-blastig”, a dangoswyd strategaethau effeithiol i newid ymddygiad ymwelwyr. Bydd y mewnwelediadau a gafwyd - o'r hyn a weithiodd yn dda i'r heriau a wynebwyd gennym - yn llywio ein camau nesaf. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y sylfaen hon, parhau â rhaglenni llwyddiannus, a chynyddu ein hymdrechion i amddiffyn Yr Wyddfa rhag llygredd microblastig pellach.



(Mae'r holl ddata ac ystadegau yn yr adroddiad hwn o brosiect peilot Yr Wyddfa Ddi-Blastig 2022-2024.)

TABL CYNNWYS

4

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

5

EGWYDDORION Y PROSIECT

Cynnal a Pharchu Ein Hamgylchedd

Cymunedau Cynaliadwy

Cenedlaethau'r Dyfodol

6

MENTRAU YMGYSYLLTU Â BUSNESAU

Cynllun Busnes Yr Wyddfa Ddi-blastig

Arwain drwy Esiampl (Camau Gweithredu Mewnol APCE)

9

MENTRAU YMCHWIL A NEWID YMDDYGIAD

Cydweithio Academiaidd (Prifysgol Bangor a COM-B)

Peilot Gwaredu Biniau (Newid Ymddygiad Ymwelwyr)

13

YMGYSYLLTU AC ADDYSG IEUENCTID

15

MENTRAU GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL

Peilot Sbwriel "Llenwch Fag, Ennillwch Botel"

Digwyddiad Glanhau Mawr Yr Wyddfa

19

YMGYRCHOEDD CYFATHREBU AC YMWHYBYDDIAETH

Ymgyrch Ffantasi Mabinogion

Prosiect Bananacam

Ymgyrch Arolwg COM-B

Ffilm Byr Plastic Peak

24

CANLYNIADAU'R PROSIECT

Statws Di-blastig: Heriau a Gwersi

Cyflawniadau Allweddol

27

CAMAU NESAF



CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'r Wyddfa yn denu tua **600,000 o gerddwyr bob blwyddyn** (ynghyd â thua **120,000** sy'n mynd ar y rheilffordd i fyni i'r copa). Yn anffodus, mae'r ymweliadau trwm hyn yn dod gyda sbwriel sylweddol: yn 2022 yn unig, casglwyd dros **550 kg o sbwriel gan fenter wirfoddol Caru Eryri** ar Yr Wyddfa. Mae llygredd microplastig yn bryder arbennig – canfu arolwg diweddar fod tua **5%** o ddeunydd wyneb y copa yn cynnwys microplastigion. Gan gyd-nabod maint y broblem, a chyda **82%** o ddefnyddwyr y mynydd yn cefnogi gwaharddiad ar blastigion untro ar y mynydd (*Arolwg Ymwelwyr yr Wyddfa 2024*), fe gychwynnom ar genhadaeth i lei-hau sbwriel plastig yn sylweddol yn yr amgylchedd bregus hwn.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethon ni (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) lansio prosiect peilot **Yr Wyddfa Ddi-Blastig** – ymgyrch ddwy flynedd i wneud cyrchfan dwristaidd fwyaf poblogaidd Cymru, a chopa prysuraf Ewrop, yn fynydd “di-blastig” cyntaf y byd. Nod y prosiect oedd dod â'r broblem sbwriel barhaus ar Yr Wyddfa i ben ac atal llygredd microplastig wrth ei ffynhonnell. Fe wnaethon ni ddiffinio Parth *Di-blastig* ym mis Ionawr 2023 yn cwmpasu'r mynydd ei hun a'i bentrefi allweddol (Llanberis, Waunfawr, a Beddgelert), gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar yr ardal hon.

O'r cychwyn cyntaf, roedden ni'n deall y byddai llwyddo i gyflawni'r nod o fod y mynydd cwbl ddi-blastig yn hynod heriol. Mabwysiadodd y prosiect ddull “**gweithio tuag ato**” - yn hytrach nag un ateb mawr, cynhaliwyd cyfres o ymgyrchoedd treial ac ymyriadau i ddarganfod beth sy'n gweithio. Roedd y rhain yn amrywio o annog ymddygiad cyfrifol ymwelwyr, i ymgysylltu â chymunedau a busnesau lleol, i wneud newidiadau i'r seilwaith. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y gwaith a wnaed, y canlyniadau a gyflawnwyd, a'r gwersi a ddysgwyd, wrth i'n peilot ddod i ben ddiwedd mis Hydref 2024.



EGWYDDORION Y PROSIECT

Roedd ein hymdrechion wedi'u hategu gan dair egwyddor allweddol a oedd yn cyd-fynd â nodau cynaliadwyedd lleol a chenedlaethol:

Cynnal a Pharchu Ein Hamgylchedd

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu amgylchedd naturiol ac adeiledig Eryri. Mae hyn yn golygu cydbwysu'r economi ymwelwyr â gwarchodaeth ein tirweddau (fel yr amlygwyd yng Nghynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Eryri, Gwynedd a Chonwy). Trwy gyfrwng Yr Wyddfa Ddi-blastig, fe geisïom feithrin ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb ymhlith trigolion ac ymwelwyr am ofalu am amgylchedd Yr Wyddfa. Mesurwyd pob gweithred yn erbyn y safon o barchu natur a lleihau effaith ddynol.

Cymunedau Cynaliadwy

Mae Yr Wyddfa Ddi-blastig yn annog symudiad lleol tuag at economi ymwelwyr gylchol, di-wastraff, gan adleisio strategaeth **Tu Hwnt i Ailgylchu** Llywodraeth Cymru. Nod ein mentrau prosiect oedd hybu'r economi leol (e.e. cefnogi busnesau gwyrdd) tra ar yr un pryd yn lleihau'r ôl troed carbon lleol a'r ddibyniaeth ar gynhyrchion untro. Mae hyn yn cyd-fynd â thargedau Carbon Sero Net Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei hun. Yn ymarferol, roedd yr egwyddor hon yn golygu gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid cymunedol i leihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau, a hyrwyddo cynaliadwyedd ar lefel leol.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae ein prosiect yn rhoi llais i bobl ifanc ar faterion a fydd yn llunio eu dyfodol. Rydym yn cefnogi pobl ifanc i gymryd camau gweithredu ar sbwriel a newid hinsawdd, yn unol â galwad Maniffesto leuenctid EUROPARC i gynnwys cenedlaethau iau mewn stiwardiaeth parciau. Roedd Yr Wyddfa Ddi-Blastig yn cynnwys cydrannau addysgol i addysgu pwysigrwydd gofalu am y Parc Cenedlaethol, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc arwain ac arloesi. Drwy gyfuno ieuchyd, lles, a gweithredu amgylcheddol, ein nod oedd gwella lles pobl ifanc ac adeiladu etifeddiaeth o warcheidwaid angerddol a gwybodus yn nyfodol Yr Wyddfa.



CYNLLUN BUSNES YR WYDDFA DDI-BLASTIG

Elfen ganolog o'r prosiect oedd **Cynllun Gwobr Busnes Yr Wyddfa Ddi-Blastig**, a oedd yn cydnabod ac yn cefnogi busnesau sy'n ymrwymo i leihau plastigau untro yn eu gweithrediadau. Canolbwyntiwyd yn y lle cyntaf ar sefydliadau bwyd a diod lleol, darparwyr llety, a busnesau gweithgareddau awyr agored, y mae llawer ohonynt yn siopau "stop olaf" sy'n cyflenwi ymwelwyr cyn iddynt fynd i fyny'r mynydd. Mae'r busnesau hyn yn gynghreiriaid allweddol, gan y gallant ddylanwadu ar nifer fawr o ymwelwyr trwy gynnig dewisiadau amgen di-blastig a lledaenu'r neges "peidiwch â gadael ôl".

Dros gyfnod y prosiect, fe wnaethom **archwilio 44 o fusnesau lleol** yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd cynhwysfawr. Gan ddefnyddio rhestr wirio archwilio o dros 60 o gwestiynau, fe wnaethom adolygu cynhyrchion a werthwyd, deunydd pacio a ddefnyddiwyd, arferion rheoli gwastraff, ymgysylltu â chwsmeriaid, a gweithrediadau cyffredinol. Arweiniodd pob ymweliad busnes at gynllun gweithredu a sgôr achredu ar un o dair lefel: **Llydaw (Efydd)**, **Glaslyn (Arian)**, neu **Copa (Aur)**. Gosododd y system sgorio hon (a enwir ar ôl llynnoedd a chopau'r Wyddfa) darged sylfaenol a gwella ar gyfer pob busnes. Cytunwyd ar nodau gwella parhaus gyda pherchnogion/rheolwyr a gwnaethom ddilyniant i annog cynnydd.

Fe wnaethon ni ddiweddarau'r fframwaith archwilio yn unol â deddfwriaeth newydd yn 2024 ac arferion gorau sy'n esblygu mewn cynaliadwyedd. Erbyn 2025, fe wnaethon ni hyd yn oed gyflwyno opsiwn hunanasesu i symleiddio



ail-achredu ar gyfer busnesau sy'n diweddarau eu statws. Nid oedd y cynllun yn ymwneud â gwobrau untro - roedd yn ymwneud â meithrin ymrwymiad parhaus. Cofleidiodd busnesau adnoddau a ddarparwyd gennym, fel mapiau gorsafoedd Ail-lenwi rhanbarthol ac infograffeg **"Antur Ddi-Blastig"** i addysgu cwsmeriaid. Cafodd sawl menter bartner (e.e. rhaglen ddi-blastig Surfers Against Sewage, canllawiau Cadwch Gymru'n Daclus, Refill Wales) eu gwehyddu i'n fframwaith i ehangu effaith y tu hwnt i'n rhestr wirio ein hunain.



ARWAIN DRWY ESIAMPL (CAMAU GWEITHREDU MEWNOL APCE)

Roedden ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig **arwain trwy esiampl** a mynd i'r afael â'n gweithrediadau ein hunain. Yn gynnar yn y prosiect, fe wnaethon ni archwilio'r holl gynhyrchion a werthwyd yng Nghanolffannau Croeso'r Parc Cenedlaethol a'r deunydd pacio a ddefnyddir gan ein cyflenwyr. Erbyn diwedd 2022, roedd gan yr Awdurdod dros **2,000** o unedau cadw stoc gan dros 70 o gyflenwyr ar draws tair canolfan ymwelwyr. Roedd llawer o gyflenwyr eisoes wedi dechrau gwaredu â'u deunydd pacio plastig untro, ond nododd ein harchwiliad feysydd problemus a oedd yn dal i fodoli a'n helpu i wthio am welliannau. Erbyn mis Rhagfyr 2022, fe wnaethon ni gwblhau archwiliad stoc llawn ac anfon holiadur hunanasesu cynaliadwyedd at bob cyflenwr i annog arferion pecynnu gwell.

Aeth ein safleoedd ein hunain ati hefyd i gael achrediad Di-blastig drwy'r un fframwaith busnes a ddefnyddiwyd gennym yn allanol. Enillodd y caffi ym Mhlas Tan y Bwlch a'r caffi yn Yr Ysgwrn statws **Llydaw (Efydd)**, gydag ymrwymïadau i gyrraedd lefelau Glaslyn a Copa yn y drefn honno drwy leihau plastigau untro ymhellach.

Yn 2024, fe wnaethom ffurfioli ein hymrwymiad drwy weithredu **Polisi Plastigau Untro** ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r polisi mewnol hwn yn nodi hierarchaeth glir ar gyfer lleihau ac yn y pen draw dileu plastigau untro yn ein caffael a'n gweithgareddau. Mae hefyd yn rhoi canllawiau i staff ar ddod o hyd i ddewisiadau amgen cynaliadwy.

Mae'r Polisi Plastigau Untro newydd a'r broses archwilio fewnol wedi gosod sylfaen ar gyfer gwelliant parhaus. Mae ein rheolwyr yn cytuno, a bydd yr arferion rydyn ni wedi'u rhoi ar waith yn parhau i gael eu monitro a'u datblygu. Yn fyr, rydyn ni wedi ymgorffori'r ethos di-blastig yng ngweithrediadau dyddiol yr Awdurdod.



MENTRAU YMCHWIL A NEWID YMDDYGIAD

Roedd deall *pam* mae pobl yn taflu sbwriel a sut i annog ymddygiad gwell yn rhan hanfodol o'r prosiect. I'r perwyl hwnnw, fe wnaethon ni gydweithio ag arbenigwyr academiaidd a rhoi cynnig ar ymyriadau arloesol ar y mynydd.

Cydweithio Academiaidd (Prifysgol Bangor a Fframwaith COM-B)

Bu ein partneriaeth â **Phrifysgol Bangor** yn amhrisiadwy ar gyfer chwistrellu gwyddor ymddygiad i'n hymgyrchoedd. Buom yn gweithio gyda'r Athro John Parkinson a'i dîm i gymhwyso **fframwaith COM-B** - model newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar *Allu*, *Cyfle*, a *Chymhelliant* fel gydwyr ymddygiad. Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, fe wnaethom gynllunio ymyriadau a oedd yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol sbwriel. Er enghraifft, os nad oes gan bobl y *gallu* (gwybodaeth neu offer) i gario eu gwastraff, neu'r *cyfle* (fel bin neu fag cyfleus) i'w waredu'n iawn, neu'r *cymhelliant* i wneud hynny, mae angen mynd i'r afael â phob un o'r ffactorau hyn.

Yn 2023 a 2024, fe wnaeth myfyrwyr MSc Seicoleg o Brifysgol Bangor ein helpu i gynnal **arbrolfion ymddygiadol** ar ddau lwybr poblogaidd (Llwybr Watkin a Llwybr Llanberis). Ymgysylltodd ymchwilyr myfyrwyr hyfforddedig â cherddwyr wyneb yn wyneb gan ddefnyddio sgript wedi'i baratoi wedi'i seilio ar dechnegau seicolegol (fel cyfweliadau ysgogol). Roedden ni eisiau gweld a fyddai sgwrs gyfeillgar ar ddechrau taith gerdded - yn ymdrin â pharatoadau, cyfrifoldeb personol, ac effaith sbwriel - yn arwain at lai o sbwriel.

Roedd y canlyniadau'n galonogol. Ar Llwybr Watkin, gwelodd ein treial **ostyngiad o 60%+** yn nifer yr eitemau sbwriel a welwyd yn ystod y cyfnod arbrolfol. Casglom hefyd **149 o** "addewidion di-blastig" wedi'u llofnodi gan gerddwyr fel rhan o'r ymgysylltiad hwn. Yn nodedig, nid oedd y tywydd na glendid cychwynnol y Llwybr yn ymddangos fel petai'n effeithio ar faint o sbwriel a ollyngwyd - sy'n golygu hyd yn oed ar ddiwrnod blêr neu lawog, roedd ein hymyrraeth yn dal i wneud gwahaniaeth. Canfuwyd sbwriel yn bennaf mewn mannau lle mae pobl yn tueddu i aros (mannau gorffwys neu olygfannau poblogaidd), gan danlinellu bod angen sylw arbennig ar ardaloedd gweithgaredd dynol.



Myfyriodd yr **Athro John Parkinson**, a wasanaethodd fel cynghorydd Gwyddor Ymddygiad i'r prosiect, ar y canfyddiadau hyn:

Nododd yr Athro John Parkinson (Prifysgol Bangor): “Mae pobl yn taflu sbwriel am amrywiaeth o resymau ac nid dim ond oherwydd nad oes ots ganddyn nhw (COM-B). Enghraifft dda yw'r Cyfle o beidio â chael bin i roi sbwriel ynddo a'r (*Gallu*) o beidio â chynllunio ymlaen llaw i ddod â bag i fynd â sbwriel i ffwrdd.

Mae pobl yn cael eu cymell i amddiffyn y Parc (codi sbwriel pobl eraill) ac felly dylai hyn fod yn nod allweddol. Mewn geiriau eraill, gwelir fel cyfle i hyrwyddo dinasyddiaeth gymunedol mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, yn hytrach na chanolbwyntio ar geisio cosbi troseddwy.

Wedi dweud hynny, mae problemau clir ar gyrion hyn fel gwersylla anghyfreithlon/ar hap (eleni, unwaith eto, mae gwersyllwyr wedi bod ar lannau Padarn yn rheolaidd, yn gadael sbwriel ac ati) yn ogystal â faniau gwersylla dros nos (sydd unwaith eto'n cael effaith negyddol ar bawb arall, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganlyniad negyddol canfyddedig i bobl sy'n gwneud hyn, ac felly mae'r norm ymddygiadol yn tyfu bod y rhain yn ymddygiadau derbyniol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae cael gwared ar finiau yn ffordd dda o gefnogi cyfrifoldeb personol, ond mae angen ei gysylltu ag ymgyrchoedd i esbonio **pam a sut** y dylai pobl ymddwyn.

Casgliad cyffredinol yw bod angen i ni ddeall *pam* mae pobl yn ymddwyn mewn ffordd benodol (e.e. gan ddefnyddio COM-B) er mwyn dylunio ateb wedyn. A dylem fod yn hyrwyddo'r ymddygiadau da bob amser. Mae newid ymddygiad sy'n pwysleisio'r ymddygiad targed cadarnhaol yn tueddu i fod yn llawer mwy effeithiol na cheisio lleihau ymddygiad drwg (er y gall cael cosb/canlyniadau gweladwy am ymddygiad drwg fod yn ataliadau defnyddiol, cyn belled â'ch bod yn cyfleu'r *pam yn glir* ac yn tynnu sylw at yr ymddygiadau da i anelu atynt).

Mae gwaith APCE-Prifysgol Bangor yn dangos gwerth cydweithio â'r byd academiaidd, yn ogystal â phwysigrwydd defnyddio sylfaen dystiolaeth i wneud penderfyniadau (yn hytrach na dibynnu ar farn 'ddoeth' pobl yn unig).

Cynhaliodd Prifysgol Bangor fodel i brofi arwyddocâd yr ymyriadau newid ymddygiad wyneb yn wyneb ar lwybrau Watkin a Llanberis yn 2023 a 2024. Daeth y dadansoddiad i ben yn ystadegol arwyddocaol ($p = 0.033$), sy'n golygu bod gan yr ymyrraeth effaith wirioneddol ar leihau sbwriel ar y ddau lwybr. Os byddwch chi'n profi pob llwybr ar wahân, mae'r ddau yn annibynnol arwyddocaol:

- Llwybr Watkin: $p = 0.00036$
- Llwybr Llanberis: $p = 0.03142$

Fel y gallwch weld, roedd yr effaith ar lwybr Watkin yn fwy nag ar lwybr Llanberis. Y ddau reswm tebygol am hyn yw (1) bod yr ymchwilyr wedi gallu siarad â chyfran fwy o gerddwyr ar lwybr Watkin, a (2) bod demograffig llai ymgysylltiedig a phrofiadol o ddefnyddwyr mynydd ar lwybr Llanberis.

O ganlyniad uniongyrchol i'r cydweithrediad hwn, fe wnaethom ymgorffori **fframwaith cyfathrebu ymddygiadol newydd** yn ein llawlyfr Wardeiniaid Gwirfoddol (a'i rannu â grwpiau eraill sydd â diddordeb). Mae'r fframwaith hwn, yn seiliedig ar yr hyn a ddysgom, yn tywys ein staff a'n gwirfoddwyr ar sut i siarad ag ymwelwyr am sbwriel mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol. Mae'n newid parhaol a fydd yn parhau i ddylanwadu ar ryngweithiadau ymwelwyr ar Yr Wyddfa.

Rydym yn bwriadu hyfforddi mwy o'n timau yn y fethodoleg COM-B fel y gall negeseuon ac ymgyrchoedd sy'n wynebu'r cyhoedd yn y dyfodol fod hyd yn oed yn fwy targedig a seiliedig ar dystiolaeth. Mae rôl yr Athro John Parkinson wedi'i ffurfioli i swydd wirfoddol “Ymgynghorydd Gwyddor Ymddygiad” i barhau i'n cynghori. Mae eisoes wedi ein helpu i gysylltu ag adran Seicoleg Chwaraeon Prifysgol Bangor i archwilio ymchwil newydd a phrosiectau peilot sy'n mynd i'r afael â sbwriel ac ymddygiad hamdden awyr agored.

PEILOL GWAREDU BINIAU (NEWID YMDYGIAD YMWELWYR)

Er mwyn annog cyfrifoldeb personol am sbwriel, penderfynon ni arbrofi gyda chael gwared ar finiau sbwriel mewn lleoliadau strategol. Mewn theori, os yw ymwelwyr yn gwybod nad oes biniau, rhaid iddynt fod yn barod i gario eu gwastraff – ond dim ond os ydynt yn deall pam mae biniau'n cael eu cael gwared ac yn cael eu cymell i wneud y peth iawn y mae hyn yn gweithio.

Ar ddechrau 2023, fe wnaethon ni gael gwared ar y biniau o dri maes parcio poblogaidd wrth droed Yr Wyddfa (Nant Peris, Cwellyn, a Rhyd Ddu). Yn aml, roedd gan y safleoedd hyn finiau gorlif neu roeddent yn cael eu camddefnyddio ar gyfer dympio gwastraff cartref, gan greu baich ychwanegol ar ein staff ac roeddynt yn hyll i edrych arynt yn y dirwedd. Cyn cymryd y cam hwn, fe wnaethon ni weithio gyda Phrifysgol Bangor i ddylunio arwyddion addysgiadol yn seiliedig ar fewnwelediadau COM-B, seicoleg esblygiadol a gamification – arwyddion a oedd yn egluro'r "pam" (amddiffyn y mynydd) a'r "sut" (gofyn i bobl fynd â'u sbwriel adref) mewn ffordd gadarnhaol.

Fe wnaethom ati i fonitro'r **cynlluniau peilot hyn o gael gwared ar finiau** yn agos. Helpodd ymchwilwyr Prifysgol Bangor i ddadansoddi'r canlyniadau, gan gymharu ardaloedd gyda'n harwyddion newydd ni ag ardaloedd heb arwyddion. Roedd y canlyniadau cychwynnol yn amrywio: mewn mannau lle nad oedd arwyddion esboniadol yn bresennol, cynyddodd sbwriel mewn gwirionedd (sy'n dangos bod rhai pobl wedi'u synnu neu wedi gwrthsefyll y newid). Fodd bynnag, mewn ardaloedd gyda'r arwyddion a oedd wedi'u llywio gan COM-B, ni waethygodd sbwriel yn sylweddol, ac yn bwysig iawn, **gostyngodd y cwynion i ddim byd bron iawn** o fewn wythnosau. Gwelsom hefyd bod achosion o dipio anghyfreithlon a gorlif sbwriel a oedd wedi plagio'r meysydd parcio hyn yn flaenorol wedi dod i ben yn syth bin. Mae hyn yn awgrymu, er y gall cael gwared ar finiau fod yn effeithiol, fod yn rhaid ei ategu gan gyfathrebu cryf i osod normau newydd.



Aethom ati i gynnal arolwg ymhlith yr ymwelwyr ynghylch eu hagweddau at y sefyllfa gyda biniau. Dim ond tua **10%** o ddefnyddwyr y mynyddoedd a ddywedodd fod diffyg biniau yn her fawr iddynt wrth gymryd cyfrifoldeb am eu sbwriel. Mewn gwirionedd, dywedodd dros **69%** o ddefnyddwyr wrthym **nad oed-dent yn cael unrhyw anhawster rheoli eu sbwriel eu hunain**, ac roedd mwy na hanner (**54%**) eisoes yn ymwybodol mai dim ond yng ngorsaf y copa a'r prif feysydd parcio y darp-erir biniau. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol - maent yn dangos y gall y rhan fwyaf o ymwelwyr addasu i ddull cario sbwriel ymaith mewn pecynnau, yn enwedig os ydynt yn cyrraedd wedi paratoi yn barod.

Hyd yn hyn, mae'r arbrawf cael gwared ar finiau wedi cael ei ystyried yn llwyddiant yn anecdotaidd. Drwy gydol 2024 a 2025, ni welsom gynnydd mewn sbwriel yn yr ardal- loedd hynny lle nad oes biniau, ac ni ddig- wyddodd digwyddiadau sbwriel difrifol yno eto, sy'n dangos y gallai norm newydd fod yn dechrau dod i rym. Y cam nesaf a ragwelwn yw ceisio cael gwared ar fin o ardal risg uwch, lle mae'r llif traffig o bobl yn fwy, er mwyn profi terfynau'r dull hwn o ddifri. Byddwn yn parhau i ddefnyddio negeseuon gofalus a monitro unrhyw beilot o'r fath yn agos. Yn y tymor hir, gallai lleihau seilwaith biniau (a'r costau gwasanaethu sylweddol sy'n dod gyda hynny) ein galluogi i ailgyfeirio adnoddau i fesurau ataliol eraill, ar yr amod bod ymwel- wyr yn parhau i gydweithredu ac yn wybodus.




YMGYSYLLTU AC ADDYSG IEUENCTID

Roedd ymgysylltu pobl ifanc yn ganolog i Yr Wyddfa Ddi-Blastig – wedi'r cyfan, eu heiddo nhw yw'r mynydd a'i ddyfodol. Roedden ni eisiau addysgu a grymuso pobl ifanc i fod yn hyrwyddwyr amgylcheddol.

Yn ystod y prosiect, cyflwynodd ein swyddogion gyflwyniadau a gweithdai mewn **13 o ysgolion uwchradd a 21 o ysgolion cynradd** ledled Gogledd Cymru. Drwy wasanaethau ysgol a sesiynau ys-
tafell ddosbarth, cyflwynwyd myfyrwyr i fenter Yr Wyddfa Ddi-Blastig, problem llygredd sbwriel, a ffyrdd y gallant helpu. Nid yn unig y cododd yr ymdrechion allgymorth hyn ymwybyddiaeth ymhlith cannoedd o ddisgyblion, ond fe wnaethant hefyd feithrin cysylltiadau agosach rhwng ysgolion lleol a'r Parc Cenedlaethol.

Ein prif ddigwyddiad ieuenctid oedd **COPA1**, yr uwchgynhadledd amgylcheddol ieuenctid gyntaf ar Yr Wyddfa, a gynhaliwyd ym mis Medi 2024. Fe wnaethon ni gynllunio COPA1 fel platfform proffil uchel i bobl ifanc (12–18 oed) leisio eu syniadau a dod yn rhanddeiliaid yn nyfodol y mynydd. Drwy bartneru â *Chadwch Gymru'n Daclus*, fe geisïom ysbrydoli "llysgenhadon hinsawdd yfory" trwy gymysgedd o gystadleuaeth, arloesedd a phrofiad awyr agored.



Gwahoddwyd pobl ifanc i gyflwyno fideos byr yn mynd i'r afael â phroblemau ac atebion yn ymwneud â sbwriel, cyfathrebu, polisi, neu arloesedd ar Yr Wyddfa. Darparodd ein tîm adnoddau addysgol wedi'u halinio â'r cwricwlwm cenedlaethol i helpu i arwain eu meddwl, ac aethom ar daith o amgylch ysgolion i hyrwyddo'r gystadleuaeth. Roedd yr ymateb yn wych: erbyn y dyddiad cau ym mis Mai 2024, roedd dros **200 o fyfyrwyr** o 8 ysgol uwchradd wahanol wedi anfon **79 o** syniadau fideo creadigol.

Ar ddiwrnod COPA1, daeth y tîmau a gyrhaeddodd y rhestr fer (y cynigion gorau o bob categori) ynghyd ar Yr Wyddfa ar gyfer cyfres o weithdai "deori" a sesiwn cyflwyno syniadau byw. Roedd yr egni a'r creadigrwydd yn amlwg. Yn y pen draw, dewiswyd enillwyr ym mhob categori, a **derbyniodd pob tîm buddugol grant datblygu o £1,500** i droi eu syniad yn realiti. Roedd y syniadau buddugol yn drawiadol, er enghraifft: dyfeisiodd un tîm declyn wedi'i argraffu 3D sy'n cysylltu â'ch gwregys ar gyfer cario bagiau sbwriel, lluniodd un arall osodiad celf amlgyfrwng mawr i godi ymwybyddiaeth, a chynigiodd trydydd gymhelliant raffl wobrau i gasglwyr sbwriel gwirfoddol.

Cipiodd Tim Wort, Rheolwr Addysg yn Cadwch Gymru'n Daclus, ysbryd y digwyddiad pan ddywedodd:

"Mae mynd i'r afael â llygredd plastig yn galw am arloesedd a safbwyntiau ffres. Dyna pam rydyn ni'n gyffrous i gefnogi COPA1, menter effeithiol sy'n grymuso meddyliau ifanc gyda her arloesol. Mae'n gwasanathu fel man cychwyn ar gyfer gweithredu, perchnogaeth ac atebion a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol."

Profodd COPA1 i fod yn ffordd effeithiol nid yn unig o gynhyrchu syniadau ffres, ond hefyd i gael pobl ifanc i fuddsoddi'n bersonol mewn diogelu'r Wyddfa. Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr erioed wedi bod yn rhan o rywbeth fel hyn; drwy gyflwyno eu syniadau a dringo'r mynydd, fe wnaethant greu cysylltiad personol â'r lle a'r mater. Cryfhodd y digwyddiad hefyd ein perthnasoedd ag ysgolion a dangos gwerth ymgysylltu amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar ieuencid.

(Cafodd COPA1 ei ariannu'n hael gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Phrifysgol Bangor, gan dynnu sylw at y gefnogaeth gref i ymgysylltu a'r ieuencid yn ein cymuned.)



MENTRAU GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL

Mae ein Wardeiniaid Gwirfoddol a Caru Eryri yn gweithio'n ddiflino am chwe mis o'r flwyddyn, fel gwir geidwaid Yr Wyddfa, gan gasglu sbwriel a data i lywio gwell penderfyniadau yn y Parc. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith caled parhaus.

Chwaraeodd gwirfoddolwyr cymunedol ac ymwelwyr eu hunain ran fawr hefyd ym mhrosiect Yr Wyddfa Ddi-Blastig. Fe wnaethon ni gynnal ymgyrchoedd i annog pobl i helpu'n weithredol gyda chael gwared ar sbwriel ac i daflu goleuni ar raddfa'r broblem.

PEILOT “LLENWCH FAG, ENNILLWCH BOTEL”

Yn ystod yr haf 2024, fe wnaethon ni dreialu rhaglen gymhelliant i droi pawb oedd yn ymweld â'r mynydd yn wirfoddolwr posibl. Gwahoddodd yr ymgyrch **“Llenwch Fag, Enillwch Botel”** gerddwyr ar lwybrau poblogaidd Pyg a Mwynwyr (o Ben-y-Pass) i godi unrhyw sbwriel a ddaethant o hyd iddo yn ystod eu taith gerdded. Yna gallai cerddwyr ddod â'r bag wedi'i lenwi i ganolfan ein warden ar ddiwedd eu taith gerdded, lle byddem yn ei bwyso, yn casglu'r sbwriel i'w waredu'n briodol, ac yn gwobrwyo'r cyfranogwr gyda **photel ddŵr alwminiwm ailddefnyddiadwy am ddim wedi'i** brandio gyda Yr Wyddfa Ddi-Blastig.

Rhedodd y cynllun peilot hwn am 3 mis ar anterth y tymor cerdded. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cymerodd **51 o gyfranogwyr** ran a chasglwyd **88 kg** o sbwriel drwy gyfrwng eu hymdrechion. Er y gall y niferoedd hynny ymddangos yn gymedrol o'u cymharu â chyfanswm nifer yr ymwelwyr, cafodd yr ymgyrch effaith ehangach: dangosodd yn weladwy weithredu cadarnhaol gan gyfoedion ar y llwybrau. Yn aml, cafodd cerddwyr a welodd eraill yn cario bag sbwriel eu hysbrydoli i godi ychydig o eitemau eu hunain. Roedd y cymhelliant potel am ddim yn arwydd bach a oedd yn diolch i gyfranogwyr ac wrth gwrs roeddent yn cael teclyn ar gyfer osgoi defnyddio plastig untro (potel y gellir ei hailddefnyddio) yn y dyfodol.

O'r treial hwn, fe ddysgo' ni y gall mentrau strwythuredig ond syml ysgogi is-set o ymwelwyr brwdfrydig. Ni fydd pawb yn gwirfoddoli i godi sbwriel, ond gall y rhai sy'n gwneud hynny helpu i gael gwared â llawer iawn o sbwriel a gosod esiampyl wych. Fe wnaethom gasglu adborth hefyd fod cyfranogwyr wedi mwynhau agwedd “helfa drysor” casglu sbwriel a'r cyfle i wneud cyfraniad amlwg tuag at lesiant y mynydd.



DIGWYDDIADAU GLANHAU MAWR YR WYDDFA

Un o brosiectau mwyaf dramatig y prosiect oedd digwyddiad **Glanhau Mawr Yr Wyddfa** ym mis Medi 2024 – cynhaliwyd gweithgareddau glanhau dwys dros ddau ddiwrnod mewn rhai o ardaloedd mwyaf anghysbell y mynydd a oedd yn llawn sbwriel. Arweiniwyd y digwyddiad hwn gan Gyngor Mynydd Prydain (BMC) mewn cydweithrediad â Trash Free Trails, Plantlife, Cymdeithas Eryri, ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Targedwyd **Ceunentydd** ar Glogwyn y Garnedd, sef ceunentydd serth ar ochrau'r clogwyn ger y copa sy'n gweithredu fel lle naturiol i sbwriel gasglu wedi iddo gael ei chwythu gan y gwynt.

Nid yn unig y mae'r ceunentydd uchel, garw hyn yn drawiadol yn weledol; maent yn lochesi ecolegol i blanhigion ac infertebratau prin arctig-alpaidd. Maent hefyd yn cael eu defnyddio gan ddringwyr yn ystod y gaeaf. Dros y blynyddoedd, mae sbwriel a daflwyd (neu a gollwyd) o'r copa prysur wedi cronni yn y ceunentydd hyn sydd bron â bod yn anhygyrch. Hyd y gwyddom ni, ni welwyd gweithgareddau glanhau trylwyr yn y ceunentydd uchaf hyn erioed o'r blaen.

